GARDD
SALM 23

# Trefn Y Gwasanaeth

## **Gardd Salm 23:** Gweddi o fendith

Yr ARGLWYDD yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.

Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae ef yn fy adfywio.

Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.

Yr wyf yn arlwyo bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelynion; yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd, a byddaf yn byw yn nhŷ'r ARGLWYDD weddill fy nyddiau.

Amen.

## **Salm 23:** Gweddi ar gyfer dau lais

1. ***Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.***
2. Dduw, ein Tad, diolchwn i ti am dy ofal drosom gydol ein bywyd. Pan fyddwn yn wynebu cyfnodau anodd, rho i ni hyder ein bod yn dy law di.

1. ***Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae ef yn fy adfywio.***
2. Diolch i ti am yr amseroedd hynny pan gawn ein hadfywio, pan fyddwn yn mwynhau'r byd a grewyd gennyt, yn ymhyfrydu mewn cyfeillion a theulu, ac yn teimlo dy fod yn adfer ein heneidiau.

1. ***Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.***
2. Yn wyneb yr holl ddewisiadau sydd rhwng y da a'r drwg, gofynnwn am ddoethineb er mwyn i ni wneud y dewis cywir. Gweddïwn y bydd ein dewisiadau yn unol â'th ewyllys di.

1. ***Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.***
2. Cadw ni'n ddiogel mewn dyffrynnoedd tywyll, Arglwydd. Pan fyddwn yn galaru neu'n teimlo ofn, helpa ni i gofio dy gariad a'th nerth.

1. ***Yr wyf yn arlwyo bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelynion; yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.***
2. Diolchwn am dy fwrdd yn y diffeithwch, lle cawn hyd i noddfa a diogelwch. A gweddïwn y bydd y rhai yr ydym yn eu galw'n elynion yn ymuno â ni wrth y bwrdd fel gwesteion i ti.

1. ***Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd, a byddaf yn byw yn nhŷ'r ARGLWYDD weddill fy nyddiau.***
2. Pan na fyddwn yn gallu gweld dy ddaioni a'th drugaredd o'n blaen, cynorthwya ni i gredu y byddant yn ein dilyn yn agos iawn a bod gennym gartref tragwyddol gyda thi.

**Amen.**

## Adnoddau ar gyfer pregeth

Mae'n syndod gweld lle mor bwysig sydd i erddi yn y Beibl.  Mae tair benodol yn nodi digwyddiadau pwysig yn nrama'r Ysgrythur.

1. **Yn y darlun cynharaf sydd gennym o Dduw, yn Genesis 2, caiff gyflwyno fel garddwr.  Mae'n creu Eden, lle perffaith, ar gyfer Adda ac Efa.  Mae angen iddynt weithio yno – mae disgwyl i'r ardd fod yn gynhyrchiol yn ogystal â phrydferth – ond gardd yw Eden yn hytrach na chae.**

   Mae'r ardd yn cynrychioli man o ddiniweidrwydd, ac yno mae'r bobl yn byw mewn heddwch â Duw a'r greadigaeth – ac mae'r greadigaeth mewn heddwch â hi ei hun. Mae'r anifeiliaid gwyllt yn bwyta gwair yn hytrach na lladd anifeiliaid eraill, ac nid yw pobl yn lladd anifeiliaid er mwyn darparu bwyd a dillad (1.29-30).

   Canlyniad pechod Adda ac Efa, wrth iddynt fwyta'r ffrwyth a waharddwyd, yw eu bod yn cael eu taflu allan o'r ardd, ac yn cael eu rhwystro rhag  cael y berthynas wyneb yn wyneb â Duw  oedd yn bod cyn hynny.

   Mae'r hen, hen stori yn ddarlun o hamdden, heddwch a harmoni.  Mae'r ardd yn le da.

2. **Mae'r ail ardd yng Ngethsemane. Yno yr enciliodd Iesu i fod gyda'i ddisgyblion cyn ei achos llys a'i groesholiad.  Mae'r ardd wedi ei lleoli y tu allan i furiau Jerwsalem wrth droed Mynydd yr Olewydd, ac ystyr yr enw yn Hebraeg yw 'lle i wasgu olewydd'.**

   Mae Mathew yn dweud wrthym ei fod yno gyda Pedr, Iago ac Ioan, a'u bod wedi methu cadw'n effro i weddïo gyda Iesu. Er y cerydd, dywedir iddo ddechrau teimlo 'tristwch a thrallod dwys' (26.37). Mae Iesu'n gweddïo ar i 'gwpan dioddefaint' 'fynd heibio iddo', 'ond nid fel y mynnaf fi, ond fel y mynni di (adnod 39). Mae Luc yn dweud wrthym fod ei chwys fel dafnau o waed yn diferu ar y ddaear (23.44) a bod Jwdas wedi dod a'i fradychu gyda chusan (adnod 47).

3. **Mae'r drydedd ardd i'w gweld yn Datguddiad 22, ond nid gardd yw'r gair a ddefnyddir yno – mae'n fwy fel parc trefol.**

   Mae'r awdur yn disgrifio byd lle mae Duw yn gwneud popeth yn newydd.  Yn y Ddinas Sanctaidd, y Jerwsalem Newydd, mae afon 'disglair fel grisial' yn llifo ar hyd stryd fawr.  Mae'n dweud, 'ar ddwy lan yr afon yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg cnwd, gan roi pob cnwd yn ei fis, ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd' (22.2) - darlun sy'n dod o Eseciel 47.12.

Defnyddid dail at ddibenion iachau mewn meddygaeth gynnar, ond mae hyn yn fwy na iachâd corfforol. Roedd y 'cenhedloedd' yn wledydd ac yn ymerodraethau  oedd yn rhyfela â'i gilydd.  Darlun o gymod a geir yma.

Fe wnaeth y goeden yng Ngardd Eden arwain at dristwch a gelyniaeth.  Efallai mai o bren un o  goed Gethsemana y lluniwyd y groes.  Ond mae'r goeden yn y Jerwsalem Newydd yn cynrychioli bwriadau Duw ar gyfer pobl, ac yn cynnig iachâd ac adferiad.

A beth am Salm 23?  Pan fyddwn yn siarad am y gerddi Beiblaidd hyn, nid dim ond nodi cysylltiadau diddorol rhwng y straeon hyn a wnawn.  Maent yn dweud rhywbeth am ein profiadau heddiw – ac mae Salm 23 hefyd yn adlewyrchu hyn.

Mae'r porfeydd breision a'r dyfroedd tawel fel Gardd Eden,  lle mae popeth yn iawn ac mae heddwch rhyngom â Duw.  Nid yw hynny'n wir o hyd – fel Adda ac Efa, rydyn ni'n gwybod beth yw gwneud yr hyn sy'n ddrwg a theimlo ein bod wedi ein cau allan o bresenoldeb Duw.

Mae'r dyffryn tywyll du, neu'r 'glyn cysgod angau', y geiriad a welir mewn cyfieithiadau eraill, yn debyg i Gethsemane.  Yno, aeth Iesu trwy ddioddefaint ysbrydol dwys.  Roedd y Salmydd hefyd wedi teithio'r dyffrynnoedd hynny, fel ninnau.

Ond mae adnod olaf y Salm yn disgrifio daioni diddiwedd Duw, pan mae popeth yn iawn. Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd, a byddaf yn byw yn nhŷ'r ARGLWYDD weddill fy nyddiau.  Y Jerwsalem Newydd yw'r ' cartref' hwnnw, mae Eden wedi'i hadfer yn y parc trefol.

Mae gerddi'r Beibl a siwrne'r Salmydd yn ein hatgoffa fod Duw gyda ni gydol ein bywyd,  ac mae'n straeon ni yn rhan o stori fawr y Beibl. 'Yr Arglwydd yw fy Mugail', yn awr a hyd byth.

**Cymdeithas y Beibl / Bible Society**
Ffôn: +44(0)1793 418222   cymdeithasybeibl.cymru neu biblesociety.org.uk   Elusen gofrestredig 232759
**psalm23garden.co.uk**